



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



Disgrifiad Swydd – Darparwr Prosiect – Trawsnewid Meddyliau Ifanc ar gyfer Yfory

- Swyddi gwag:** Swyddi llawn amser ar gael yn y Gogledd a'r De
Efallai y bydd cyfle i ymgeiswyr llwyddiannus weithio'n rhan-amser/ rhannu swydd.
- Yn atebol i:** Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Swyddog Prosiect STEM Cymru
- Tiriogaeth/ Rhanbarth:** Ardaloedd awdurdod lleol Blaenau Gwent/Pen-y-bont ar Ogwr/Conwy/Sir Ddinbych
- Lleoliad:** Y cartref
- Oriau:** Llawn amser 37.5 awr yr wythnos (8.30-4.30 fel arfer, ond bydd peth gwaith min nos yn dibynnu ar amseroedd digwyddiadau a gynhelir ar ôl yr ysgol)
- Dyddiad cychwyn:** Cyn gynted â phosibl
- Hyd y contract:** Contract tymor penodol tan 30 Mehefin 2022 yn gweithio ar y prosiect uchod
- Cyflog:** £28,000 - £32,000 cyfwerth â pro rata (a chostau teithio) yn dibynnu ar brofiad
- Diben y contract:** Gweithio dan arweiniad tîm rheoli STEM Cymru a'r Prif Swyddog Prosiect i ddarparu gweithgareddau peilot yn llwyddiannus i ddisgyblion ysgolion Cynradd ym Mlynnyddoedd 5 a 6 a chyfleoedd mentora ar gyfer disgyblion ysgolion Uwchradd ym Mlynnyddoedd 10 ac 11.

Disgrifiad o'r prosiect:

Nod y Prosiect yw darparu gweithgareddau rhyngweithiol a phrofiadau i gyflwyno disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd i gyffro a rhyfeddodau gweithgynhyrchu a pheirianeg a'u gwneud yn ymwybodol o'r gyrfaoedd arloesol a gwerth chweil amrywiol sydd ar gael yn y sectorau Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Creadigol a Digidol ac Ynni a'r Amgylchedd yn y rhanbarth. Bydd y gweithgareddau a ddatblygir yn amrywio o brofiadau peirianeg/ gweithgynhyrchu ymarferol i gyfarfod mentoriaid diwydiannol a dysgu am yr hyn y mae gweithgynhyrchwyr Cymru yn ei wneud ac yn ei gynhyrchu.

Bydd Darparwyr Prosiect Trawsnewid Meddyliau Ifanc ar gyfer Yfory yn gweithio dan y Prif Swyddog Prosiect i gynnwys ysgolion yn y gweithgareddau a darparu sesiynau peilot o fewn yr awdurdodau lleol a gyllidir. Bydd Darparwyr Prosiect yn cynorthwyo'r Prif Swyddog Peilot i ddatblygu unrhyw weithgareddau pellach.

Gan mai prosiect peilot yw hwn, bydd gan Ddarparwyr Prosiect rôl allweddol yn y broses adborth. Bydd gofyn i Ddarparwyr Prosiect ddatblygu cysylltiadau gwaith da gydag ysgolion yn y rhanbarth, ynghyd ag unrhyw randdeiliaid lleol a diwydiant.

Mae'r prosiect yn cael ei gyllido gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol.

Manyleb y Person:

Byddai'r swydd hon yn ddelfrydol ar gyfer ymgeiswyr sy'n chwilio am swydd tymor byr gyda phrofiad o addysgu a/neu'r system addysg.

Byddai'r contract hefyd yn addas ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn cyfnod sabothol neu secondiad.



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



Cyfrifoldebau ac atebolrwydd allweddol:

- Gweithio gyda'r Prif Swyddog Prosiect i ddatblygu briffiau dylunio diddorol perthnasol sy'n cyfateb i ddisgrifiad y prosiect yn yr ysgol ac o fewn cyd-destun diwydiannol.
- Marchnata'r prosiect i ddenu'r nifer targed o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y rhanbarth a datblygu ffordd gadarnhaol ymlaen i ddarparu'r cyfarwyddyd cynllun.
- Cynnal arolwg sydd wedi'i ddylunio gan y Prif Swyddog Prosiect i bennu pa adnoddau sydd ar gael yn barod mewn ysgolion.
- Archwilio cyfleoedd i ymgysylltu ag ysgolion fel rhan o gyflwyno'r prosiect yn raddol gyda'r AAL a chysylltiadau ysgol eraill.
- Cadw mewn cysylltiad â'r Prif Swyddog Prosiect i gadarnhau amseroedd cyflawni a digwyddiadau.
- Cadw dyddiadur cywir o archebion ysgolion a'r sesiynau a gynhelir.
- Gweithio gyda'r Prif Swyddog Prosiect a Darparwyr Prosiect eraill i gydweithio ar ddatblygu gweithgareddau wrth ddarparu'r peilot.
- Casglu data a'r gwaith papur sy'n ofynnol gan ysgolion o fewn y rhanbarth a ddyrennir.
- Gweithio gyda'r Prif Swyddog Prosiect i gadw cofnodion o'r holl weithgareddau a gwybodaeth am y prosiect a darparu data yn ôl y gofyn.
- Gweithio dan arweiniad Prif Swyddog Gweithredol, Prif Swyddog Prosiect a Thîm Rheoli Prosiect STEM Cymru ac adrodd iddynt yn rheolaidd.
- Cadw mewn cysylltiad â Swyddog Gweinyddol a Marchnata STEM Cymru yn ôl y gofyn.
- Cynorthwyo'r Prif Swyddog Prosiect gyda phob elfen ar iechyd a diogelwch y prosiect, gan gynnwys asesiadau risg a chymau gweithredu.
- Mynychu digwyddiadau a chefnogi'r Prif Swyddog Prosiect yn ôl y gofyn.
- Mynychu cyfarfodydd grŵp Prosiect.
- Cadw mewn cysylltiad â gwerthuswyr y Prosiect a chyfrannu'n frwd at y gwerthuso.
- Yn ogystal â'r uchod, unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol gan y tîm rheoli Prosiect.

Sgiliau a Phrofiad Hanfodol

- Profiad o weithio a chadw mewn cysylltiad ag addysg a/neu ddiwydiant
- Profiad o reoli/arwain prosiect
- Profiad o gyflwyno i gynulleidfa
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a gallu amlwg i gyfathrebu ag uwch reolwyr ym maes addysg, diwydiant a chyrrff proffesiynol
- Hunangymhelliant a menter
- Ymrwymiad i helpu i dywys pobl ifanc i yrfaeod STEM
- Sgiliau gweinyddu cyffredinol
- Eich cludiant eich hun

Sgiliau a Phrofiad Dymunol

- Profiad o drefnu digwyddiadau
- Gradd berthnasol



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



- Cysylltiadau eisoes mewn diwydiant a/neu addysg
- Profiad o gyflwyno pwnc STEM, Codio Micro bit neu Ddylunio
- Profiad o allgymorth ysgolion neu ddigwyddiadau ar gyfer pobl ifanc
- Gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru presennol a'r Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd
- Siaradwr Cymraeg